Dy **Sgiliau**
Dy **Brofiadau**
Dy **Ddyfodol**

my.bangor.ac.uk/cyflogadwyedd

## Taflen i Raddedigion sy'n Chwilio am Swyddi

P'un a ydych eisoes yn gweithio, am wneud gradd Meistr/PhD, neu flwyddyn i ffwrdd - bydd y rhanfwyaf ohonoch, yn hwyr neu'n hwyrach, yn chwilio am swydd - ac yn cael swydd, un dda gobeithio!

**Cyn i chi ddechrau**

Gall chwilio am swydd fod **yn waith caled iawn ac yn llethol yn emosiynol.**

Mae gofyn i chi fod:

- **Yn ddyfeisgar** - dyw'r rhan fwyaf o swyddi (tua 80%) ddim yn cael eu hysbysebu, ac felly ynaml mae'n rhaid i chi chwilio pob twll a chornel am gyfleoedd.
- **Yn effeithlon** - dim ond hyn a hyn o amser, egni, arian a chymhelliant sydd gennych, gwnewch yn fawr ohonynt.
- **Yn wydn** - mi gewch chi eich gwrthod, ond peidiwch â rhoi'r gorau iddi! Mi ddowch chi etoac addasu a ffynnu.

Mae'n dda o beth fod gennych chi fel myfyrwyr/graddedigion lawer o ddoniau arbenigol fel casglu gwybodaeth/ymchwilio, cynllunio a chael eich asesu. Efallai y bydd y gêm yn newid ond yr un yw'relfennau:

- I chwilio am swydd mae angen **ymchwilio a chynllunio, casglu gwybodaeth, dadansoddi beirniadol.**
- Ar gyfer ceisiadau mae angen i chi **ddeall y briff a chyflwyno gwaith ysgrifenedig cywir a chraff.**
- Ar gyfer cyfweliadau mae angen ichi **fod yn huawdl a'ch cyflwyno chi eich hun yn dda.**

**Dechrau Arni**

Rheol gyntaf chwilio am swydd yw, **ni waeth pa mor bryderus/awyddus ydych chi i gael swydd ar ôl graddio, peidiwch ag ymgeisio am bob dim dan haul** . Mi wnaiff cyflogwyr adnabod cais blanced yn syth. Mae chwilio am swyddi fel yna yn flinedig iawn, ac mi gewch chi eich gwrthod droeon ac mi gollwch eich hyder. Mae risg hefyd o fynd o'r naill swydd i'r llall a chwithau ddim eu heisiau mewn gwirionedd, a gwneud drwg i'ch enw da proffesiynol/CV.

**Beth i'w Wneud**

1. Gofynnwch i gynifer o bobl ag y medrwch am eu cyngor a'u profiadau - yn enwedig rhai sy'n raddedigion ers 5 mlynedd neu lai, bob cyfle gewch chi.

2. Ni all neb ddweud wrthych pa swyddi i ymgeisio amdanynt - dim ond chi sy'n gwybod beth sydd ei angen arnoch chi, a beth rydych chi ei eisiau, ond o leiaf, lluniwch ddwy restr:

| **Yr hyn sydd ei angen arnaf** | **Yr hyn rydw i eisiau** |
|---|---|
| e.e. isafswm enillion<br>lleoliad<br>amser cymudo<br>sicrwydd swydd<br>oriau hyblyg<br>gweithle cynhwysol | *Nid yn unig eich swydd ddelfrydol, ond eich amgylchedd gwaith - meddyliwch am y math o berson ydych chi, eich personoliaeth, eich rhinweddau a'ch sgiliau - gallai hynny eich helpu chi greu llun o'r math o waith a fyddai'n addas i chi* |

Byddwch yn barod i gyfaddawdu ar rai pethau (oriau hir/cyflog isel/sicrwydd) ar gyfer y swydd iawn/cyfle, a phethau eraill na allwch chi gyfaddawdu arnyn nhw a allai eich cyfyngu chi (cyfrifoldebau teuluol, dibyniaeth ar drafnidiaeth gyhoeddus) - felly, lluniwch drydedd rhestr 'Cyfaddawdu/Cyfyngiadau' os nad ydyn nhw'n ffitio yn eich rhestr 'angen/eisiau'.

O hynny ymlaen gallwch wneud cynllun sy'n seiliedig ar eich amgylchiadau - os ydych wedi'ch cyfyngu i ardal ddaearyddol, gallwch ddechrau ymchwilio i'r cyflogwyr sydd yn y dalgylch hwnnw, neu os ydych chi'n hyblyg, dechreuwch gyda'ch swydd ddelfrydol (a'ch cyflogwyr delfrydol) a gweithiwch eich ffordd drwyddi o'r fan honno.

**<u>Pryd i ddechrau chwilio: Nodyn bach am y flwyddyn recriwtio graddedigion</u>**

Caiff swyddi eu hysbysebu trwy gydol y flwyddyn, ond yn draddodiadol mae dau anterth tymhorol - mis Mai-Gorffennaf, a mis Medi-Tach.

Os ydych chi'n awyddus i ddechrau chwilio, mae'r broses recriwtio'n cymryd o leiaf 4-6 wythnos, ond os gwelwch chi rywbeth diddorol nawr, waeth i gysylltu â'r sefydliad ac egluro pryd y byddwch chi ar gael. Fel rheol, oni bai ei fod yn gais i gynllun recriwtio graddedigion, arhoswch tan tua mis Ebrill.

**Cynlluniau Recriwtio Graddedigion**

Mae llawer o gyflogwyr blaenllaw'r Deyrnas Unedig ymhob sector yn rhedeg cynlluniau graddedigion. Mae dyddiadau cau cynlluniau graddedigion yn aml rhwng diwedd mis Tachwedd a mis Ionawr; bydd angen i chi gynllunio ymlaen llaw i wneud cais am le ar un o'r rhaglenni hyfforddi oherwydd maen nhw'n gystadleuol iawn.

Gallwch wneud cais i rai sefydliadau trwy gydol y flwyddyn, a bydd eraill yn cau'n gynnar pan fydd digon o geisiadau wedi dod i law. Bydd angen i chi barhau i gadw golwg ar bethau a chynllunio'n bwrpasol o'ch ail flwyddyn o astudio os ydych chi am drefnu lle. Meddyliwch y tu hwnt i'ch gradd hefyd; mae llawer o gynlluniau'n derbyn graddau ar lefelau penodol mewn unrhyw bwnc, felly gallai rhywun sydd wedi graddio yn y Dyniaethau, er enghraifft, ddilyn gyrfa drwy gynllun y cyngor lleol neu'r GIG.

I ddechrau chwilio am gynllun sy'n addas i chi, gweler yr wybodaeth sydd ar wefan Prospects. https://www.prospects.ac.uk/careers-advice/getting-a-job/graduate-schemes

Gwefan academaidd yw hon ac mae hefyd yn cynnig cyngor a gwybodaeth ynglŷn â chynllunio gyrfa. Hysbysebir cynlluniau graddedigion yn bennaf ar wefannau recriwtio graddedigion fel Target Jobs https://targetjobs.co.uk/ , neu ar wefannau'r cwmni yn uniongyrchol, fel Aldi https://www.aldirecruitment.co.uk/. Cofiwch fwrw golwg dros dudalennau sefydliadau ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd - yn aml bydd recriwtwyr yn defnyddio LinkedIn.

Mae prosesau dethol y cynlluniau graddedigion yn anodd. Caiff ymgeiswyr eu dethol trwy ffurflenni cais, profion ar-lein, cyfweliadau a gaiff eu ffilmio, a chanolfannau asesu. Bydd angen i chi baratoi'n drylwyr bob cam o'r ffordd er mwyn aros yn y broses. Er bod llawer iawn o waith, mae'n werth chweil. Mae ymgeiswyr llwyddiannus yn ennill cyflog cychwynnol da ac fel arfer o fewn dwy flynedd byddant yn gweithio ar lefel reoli, ac wedi ennill cymhwyster, neu'r ddau.

## Ble i Edrych

**Does dim rhaid i chi ymgeisio am swyddi graddedigion sy'n perthyn i'ch disgyblaeth academaiddyn unig:**

Mae cyflogwyr yn chwilio am raddedigion o bob cefndir, ond mae eich disgyblaeth yn bwysig er hynny - er enghraifft, mae graddedigion gwyddoniaeth yn drefnus iawn ar y cyfan, yn wych am ddadansoddi beirniadol a darogan; yn yr un modd, mae graddedigion y dyniaethau'n debygol o feddu ar sgiliau ysgrifennu da a'r gallu i grynhoi llawer iawn o wybodaeth. Lluniwyd eich modiwlau a'ch aseiniadau yn benodol i ddatblygu eich sgiliau a'ch cymwyseddau lefel uwch sy'n eich gwneud chi'n gyflogadwy yn ogystal â datblygu eich gwybodaeth am y pwnc. Mae eich disgyblaeth academaidd yn rhoi safbwynt unigryw i chi. Defnyddiwch hynny er mantais i chi a pheidiwch â meddwl bod yn rhaid i chi gyfyngu'ch hun i ystod gul o sectorau!

**Gwefannau Gyrfaoedd Graddedigion**

Prospects https://www.prospects.ac.uk/

targetconnect https://targetconnect.bangor.ac.uk/home.html

Targetjobs https://targetjobs.co.uk/

Gradjobs https://www.gradjobs.co.uk/

Graduate Recruitment Bureau https://www.grb.uk.com/

Milkround www.milkround.com

The Guardian https://jobs.theguardian.com

Diversity Dashboard https://diversitydashboard.co.uk/

Give a Grad a Go https://www.giveagradago.com/

Graduate Fog https://graduatefog.co.uk/

MyPLUS https://myplusstudentsclub.com/

**Mae'r daflen sy'n dwyn y teitl Cyfeiriadur o Gysylltiadau Defnyddiol yn cynnwys gwybodaeth helaethach am wefannau posibl.**

***Y Cyfryngau Cymdeithasol***

Mae dylanwad y cyfryngau cymdeithasol ar y dulliau recriwtio ar gynnydd. Maent yn rhad ac yn eang ac y mae cyflogwyr yn eu defnyddio i hysbysebu swyddi. Gall bod yn graff gyda'ch cyfryngau cymdeithasol a'i ddefnyddio fel offer ymchwil wrth wneud ceisiadau ac ymholiadau hapfasnachol (er enghraifft, clywed bod sefydliad yn ehangu, newydd ennill contract mawr, neu gyllid ac ati) roi mantais sylweddol i chi.

Defnyddiwch Facebook a Twitter i ddilyn y recriwtwyr sydd o ddiddordeb i chi i gadw golwg ar unrhyw gyfleoedd. Gallwch bostio ar eich cyfrifon hefyd i ddweud eich bod yn chwilio am waith, a gall eich rhwydwaith roi gwybod i chi os gwelant unrhyw swyddi addas. Mae mwy a mwy o fusnesau hefyd yn postio eu swyddi gwag ar grwpiau yn hytrach na thalu am hysbysebion yn y wasg; ymunwch â grwpiau lleol fel 'Ar Werth ym Mangor' neu 'Hysbysfwrdd Swyddi Cymru' i chwilio am swyddi gwag o fewn y grwpiau. Mae yna dudalennau Twitter ar gyfer swyddi hefyd: mae'r Ganolfan Byd Gwaith Gogledd Cymru - @JCPinNNWales – yn rhannu swyddi trwy'r dydd!

LinkedIn: Cofiwch weithio ar eich proffil cyn i chi ddechrau rhwydweithio a chwilio am swyddi. Bydd angen llun proffil proffesiynol a phennawd pwrpasol a chryno. e.e. "Wedi graddio ac yn chwilio am gyfleoedd ym maes Marchnata Ariannol". Meddyliwch am eich rhwydweithiau agos a'r rhai ehangach a chadwch feddwl agored wrth chwilio. Defnyddiwch Grwpiau LinkedIn i ehangu eich gwybodaeth am sectorau i'ch helpu chi baratoi am gyfweliadau.

***Ffeiriau Swyddi i Raddedigion***

Mae'r rhain yn digwydd trwy gydol y flwyddyn yn rhanbarthol. Mae 'na un fawr ym Manceinion fis Hydref. Gwyliwch hefyd am Grad Jobs Live fis Hydref/Tachwedd yn Llundain a Birmingham. Chwiliwch am 'ffeiriau gyrfaoedd graddedigion' ar-lein am restr o ddigwyddiadau.

Go brin y bydd y bobl sydd yn y ffeiriau'n gallu cyflogi neb, ond o sgwrsio â nhw cewch wybod pob math o wybodaeth na chaech chi yn unman arall (yn sicr nid ar eu gwefan). Gallech ddysgu pryd maent yn cyflogi, beth sydd ar y gorwel, yr hyn y maent yn chwilio amdano, ystyr 'profiad sy'n ofynnol', a chamgymeriadau i'w hosgoi. Mae hefyd yn help aruthrol i fagu hyder wrth siarad ag ymarferwyr / gweithwyr proffesiynol / cyflogwyr.

***Llefydd eraill i chwilio:***

***Cyrff Proffesiynol / Cymdeithasau Dysgedig***

Bydd rhai sefydliadau'n hysbysebu swyddi gwag gyda'r rhain os ydyn nhw am ddenu ymgeiswyr/graddedigion arbenigol sydd â gwir ddiddordeb ac sy'n frwd i weithio mewn sector penodol.

***Asiantaethau Recriwtio***

Efallai eich bod eisoes wedi defnyddio asiantaeth recriwtio leol i chwilio am waith dros yr haf / gwaith dros dro, ond os ydych chi'n hyblyg o ran y gwaith yr hoffech chi ei wneud yn ddelfrydol, mi wnaiff y staff foeli eu clustiau a cadw golwg drosoch, yn enwedig os profwch eich gwerth fel temp dibynadwy. Peidiwch â chadw'ch dyheadau i chi'ch hun, neu ni all neb eich helpu chi!

***Prifysgolion Lleol***

A wyddoch chi y cewch fynediad at wasanaethau gyrfaoedd prifysgolion am dair blynedd ar ôl graddio? Os nad ydych yn aros yn y gogledd, cysylltwch â'r brifysgol agosaf. Mae hynny'n ddefnyddiol iawn os ydych chi eisiau cyngor ynglŷn â chais / CV / cyfweliad, neu os ydych chi'n mudo a'ch bod chi eisiau gwybod pa gyflogwyr sy'n chwilio am raddedigion yn yr ardal.

## Mynd at Gyflogwyr - Gofyn am swydd

Nid yw pob swydd wag yn cael ei hysbysebu, oherwydd mae'n ddrud iawn - hefyd, o hysbysebu swyddi gwag yn eang ceir llawer iawn o geisiadau gwael i'r cyflogwyr fynd drwyddynt.

Yn bendant mae'n werth anfon llythyrau at nifer dethol o gyflogwyr, cyhyd â'ch bod chi'n gwneud eich gwaith cartref yn gyntaf!

**1. Gwybod am y cwmni**

Dod o hyd i gyswllt allweddol - unigolyn a enwir sydd â'r awdurdod i gynnig rhywbeth i chi o bosibl, neu hyd yn oed i wybod rhywbeth am y cynlluniau cyflogi at y dyfodol. Mae hefyd yn dangos sylw i'r manion!

**2. Byddwch yn glir am yr hyn rydych chi ei eisiau ond peidiwch ag erfyn!**

Peidiwch ag ysgrifennu 'Hoffwn wneud cais am unrhyw swyddi gwag'. Beth yw eich gobeithion realistig? Swydd lefel mynediad? Cyfle i ennill rhywfaint o brofiad? Po fwyaf rydych chi'n ei wybod am y cwmni, po fwyaf y byddwch chi'n gwybod beth sy'n bosib.

**3. Byddwch yn gadarnhaol ac yn benodol am yr hyn y gallwch ei gynnig / sut y gallwch chi gyfrannu**

Dyma lle rydych chi'n eich gwerthu'ch hun - dangoswch eich bod chi'n addas i'r sefydliad, a'ch bod chi'n awyddus i gyfrannu at eu llwyddiant.

**4. Mae angen cyfleu agwedd a brwdfrydedd**

Efallai fod gennych gymwysterau a phrofiad, ond os nad oes gennych agwedd gadarnhaol a brwdfrydedd, mae'n anodd argyhoeddi'r cyflogwr y gallech wneud defnydd da o'ch gwybodaeth a'ch sgiliau.

**5. Dilynwch hynny gyda galwad ffôn**

Os na chewch chi ateb ar ôl pythefnos, peidiwch ag ofni gwneud galwad ffôn. Y gwaethaf a all ddigwydd yw eu bod yn diolch yn gwrtais i chi am eich diddordeb, ac yn dweud wrthych nad ydyn nhw'n llenwi swyddi ar hyn o bryd. Ond byddwch wedi dangos eich bod yn awyddus ac yn gallu mentro, sy'n beth prin mewn ymgeiswyr, felly mae'n gyfle i wneud argraff gadarnhaol arnynt at y dyfodol pan fyddant yn hysbysebu swyddi.

**Y paradocs bod 'profiad gwaith yn ofynnol'**

Mae'n rhwystredig pan fo cyflogwyr yn gofyn am brofiad, ond chewch chi ddim mo'r profiad heb y gwaith - mae hynny'n anodd.

Ceisiwch ennill cymaint o brofiad â phosibl yn y brifysgol, er mwyn archwilio'r opsiynau sydd gennych o ran gyrfaoedd, datblygu'ch sgiliau a gwella'ch hyder. **Mae cyflogwyr eisiau graddedigion sydd â rhywfaint o brofiad fel y gallant fod yn siŵr eu bod yn deall y proffesiwn/sector (e.e. oriau hir, gweithio yn yr awyr agored ym mhob tywydd, llawer o waith papur diflas) ac er mwyn sicrhau na fydd gofynion y swydd yn eu llethu.**

Ar ben hynny, **daeth 15.3% o raddedigion 2017 o hyd i'w swyddi trwy weithio i'w cyflogwr arleoliad**, ac felly mae'n ffordd wych o osgoi gorfod chwilio am swydd!

Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd cael gwaith rydych chi'n chwilio amdano heb y profiad angenrheidiol, efallai yr hoffech chi ailystyried a cheisio dechrau ar lefel is, neu hel profiad trwy wirfoddoli neu wneud lleoliad / profiad gwaith di-dâl.

**Fedrwch chi fforddio gwneud hynny?**

Os nad oes raid i chi ennill cyflog yn syth, defnyddiwch yr amser i gael cymaint o brofiad perthnasol â phosibl - gallwch ddefnyddio'r gwefannau uchod i ddod o hyd i gyfleoedd gwirfoddoli / lleoliadau. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd yn rhaid i chi ennill o leiaf rhywfaint o arian, ac felly fe allech chi ystyried gweithio'n rhan amser neu oriau hyblyg, a rhoi diwrnod / penwythnos / gyda'r nos o'r neilltu ar gyfer profiad gwaith. Efallai y bydd 1 diwrnod yr wythnos am 6 mis yn ddigon i argyhoeddi darpar gyflogwr eich bod o ddifrif ac yn frwd.

**Taro Cydbwysedd**

Hyd yn oed os ydych chi'n 'gweithio am ddim', mi wnaiff hynny ddefnyddio adnoddau'r sefydliad, o ran sicrhau bod yswiriant ar eich cyfer, esbonio pethau i chi, eich hyfforddi a'ch goruchwylio (os oes angen). Fodd bynnag, byddwch yn glir ynglŷn â'r profiad rydych chi'n gobeithio ei ennill - efallai y

gwelwch eich bod chi'n gwneud paneidiau o de neu'n mewnbynnu data yn ddiddiwedd. Os cymerwch leoliad di-dâl neu swydd wirfoddol, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ymlaen llaw. Ni ddylech chi weithio am gyfnod hir yn ddi-dal (heblaw am swyddi gwirfoddol penodol) - eich dewis chi yw hynny yn y pen draw ond sicrhewch eich bod chi'n gwneud yn fawr o'r cyfle.

**Cymryd swydd dros dro**

Mae'n bosib y byddwch chi'n eich cael eich hun mewn swydd dros dro 'am y tro' mewn swyddfa, manwerthu neu letygarwch, yn poeni mai yno y byddwch chi am byth. Ceisiwch beidio â bod yn ddiystyriol o unrhyw swyddi a wnewch - cofleidiwch bopeth y gallai'r swydd dros dro ei gynnig i chi heb adael iddi eich diffinio chi.

- **Rydych chi'n meithrin eich enw da proffesiynol** - dibynadwyedd, prydlondeb, parodrwydd i helpu, gwaith tîm, cyfathrebu - sylfeini hanfodol POB proffesiwn.
- **Ymdaflwch i'r swydd cymaint â phosib** - hyfforddi, cynorthwyo eraill, helpu mewn adran arall - maen nhw i gyd yn gyfleoedd i ychwanegu at eich CV ac ehangu eich profiad.
- **Byddwch yn onest* am yr hyn rydych chi ei eisiau** - gall eich goruchwyliwr roi cyfleoedd i chi, a gall cydweithwyr fod yn arweinwyr/yn gysylltiadau annisgwyl
- Peidiwch â rhoi'r gorau iddi! I Rufain yr arwain pob ffordd!

**gallwch fod yn onest am eich breuddwyd o fod yn geidwad y sŵ heb awgrymu 'Rwy'n rhy dda i'r swydd hon'!*

Er enghraifft, os cymerwch swydd mewn swyddfa gyda chwmni bach, gallai fod cyfle i chi wneud llawer iawn o wahanol bethau 'ymarferol', a chyfleoedd i ddysgu am redeg a thyfu busnes, hyrwyddo a digwyddiadau, a chynllunio strategol ymhlith pethau eraill.

Os cymerwch swydd mewn cwmni mawr efallai y cewch gyfle i symud o amgylch yr adrannau'n helpu, a dysgu sut mae gwahanol swyddogaethau'r sefydliad yn cyd-blethu.

Lle bynnag rydych chi'n gweithio, byddwch chi'n cwrdd â phobl a allai fod â theulu a ffrindiau sy'n gweithio yn eich proffesiwn delfrydol, neu sydd â gwybodaeth amdanyn nhw - felly cadwch feddwl agored a gwneud argraff dda ble bynnag yr ewch chi!

**Ac yn olaf ond nid y lleiaf. . .**

Cyfalaf Cymdeithasol - mae gan gyfalaf cymdeithasol ddylanwad enfawr ar lwyddiant gyrfa graddedigion - daeth 16.5% o raddedigion 2017 o hyd i swyddi trwy gysylltiadau personol. Os oes gennych deulu neu ffrindiau sydd â chysylltiadau a all roi cyngor ac arweiniad penodol i chi, gorau'n byd - os nad oes, mae gwneud cysylltiadau trwy'r cyfryngau cymdeithasol, gwirfoddoli, mynychu digwyddiadau, cefnogi mentrau a bod yn agored am eich dyheadau yn ffordd dda iawn o feithrineich gyrfa ar ôl graddio.

Pob lwc! Cofiwch y gallwch drefnu apwyntiad ar-lein i weld Cynghorydd Cyflogadwyedd:
https://targetconnect.bangor.ac.uk/home.html

*Gwasanaeth Cyflogadwyedd, Awst 2021*